Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau

# Gwyliau

Cyngor Celfyddydau Cymru | Tachwedd 2018

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Cyfle Cyfartal.

# Gwyliau

## Pwrpas

Cynorthwyo dathliadau neilltuol o ansawdd uchel i ddathlu'r gorau o fyd y celfyddydau yng Nghymru.

## Beth rydyn ni am ei gyflawni

Mae gwyliau'n chwarae rhan annatod ym myd diwylliannol Cymru. Maent yn gallu estyn allan at bobl na fyddai'n mynd i ganolfannau celfyddydol traddodiadol fel arall. Maent yn darparu llwyfan hefyd i ddangos cyfoeth diwylliant yng Nghymru.

Mae gwyliau'n gallu creu ffocws y mae mawr angen amdano ar fath penodol o gelfyddyd neu ardal, a gall fod yn ffenestr siop i Gymru trwy ddenu ymwelwyr o'r tu hwnt i'r wlad. Mae eu gweledigaeth artistig glir yn golygu eu bod yn fan cwrdd i'r goreuon yn mynd diwylliannol Cymru ac i'r rhai sydd o fri rhyngwladol. Mae'r cymysgedd unigryw hwn o ansawdd ac amrywiaeth yn golygu bod ein gwyliau mewn sefyllfa dda i estyn allan at gynulleidfaoedd newydd ac ehangu gorwelion y bobl sy'n mynychu eisoes.

Ond mae effaith ehangach y gwyliau penigamp hyn yn mynd y tu hwnt i'r digwyddiad ei hun. Mae eu llwyddiant yn cyfrannu at agendâu ehangach adfywio a thwf economaidd, ac mae ganddynt ran i'w chwarae yn y farchnad gynyddol sy'n bodoli ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol. Dyna pam y dylai'r gwyliau rydyn ni'n eu cynorthwyo ddarparu ymdeimlad o le ac, ar lefel fwy lleol, helpu i dynnu cymunedau lleol at ei gilydd i greu ymdeimlad o falchder yn y gymuned a dinasyddiaeth.

Gall y gwyliau gorau gynnig rhywbeth anghyffredin. Rydyn ni am gynorthwyo gwyliau â ffocws, ac â chyfyngiad o ran amser, sy'n darparu rhaglenni bywiog o ddigwyddiadau a gweithgareddau celfyddydol o safon uchel sy'n dathlu amrywiaeth a natur unigryw Cymru. Rhaid iddynt fod â ffocws artistig clir ac ymrwymiad i raglennu gwaith o ansawdd.

Rydyn ni am gynorthwyo prosiectau sydd wedi cael eu cynllunio'n dda i estyn allan at gynulleidfaoedd, fel y gall y nifer fwyaf bosibl o bobl gymryd rhan yn eich achlysur. Dylai hyn gynnwys gweithgareddau i ddatblygu cynulleidfaoedd, addysg ac allestyn, yn ogystal â gweledigaeth tymor hwy ac etifeddiaeth glir i'r Ŵyl trwy gydol y flwyddyn.

Gallwn gynorthwyo gwyliau sy'n cyflwyno un fath o gelfyddyd, neu unrhyw gyfuniad o fathau o gelfyddyd. Rydyn ni'n arbennig o awyddus i gynorthwyo gwyliau sy'n comisiynu neu'n creu ac yn cyflwyno gwaith artistig newydd. Ein blaenoriaeth yw ansawdd y gwaith rhaglennu. Os yw gŵyl yn hawlio ei bod yn "rhyngwladol", byddwn ni'n disgwyl i'r rhaglen weithgarwch adlewyrchu hyn, ac iddi fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll craffu beirniadol.

## Prosiectau na fyddwn yn eu cynorthwyo

Ni fyddwn yn cynorthwyo rhaglenni gweithgarwch a allai ddigwydd mewn theatr neu oriel, neu lle mae'r celfyddydau'n rhan fechan mewn digwyddiad gŵyl o fath gwahanol. Ni fyddwn yn cynorthwyo rhaglenni gwaith sy'n para gydol y flwyddyn chwaith.

Er bod diddordeb gennym mewn gwyliau sy'n cyflwyno pob math o gelfyddyd, nid ydym yn cynorthwyo gwaith ffilm. Y rheswm am hynny yw ein bod ni'n dirprwyo'r cyfrifoldeb dros gyllido digwyddiadau ym maes ffilm i Ffilm Cymru Wales. Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am Ffilm Cymru Wales.

## Y Cyllid sydd ar gael

Cewch gyflwyno cais am hyd at **75%** o gyfanswm costau cymwys eich prosiect. Gellir cyflwyno ceisiadau ar y lefelau canlynol:

- Grantiau bach rhwng £250 a £5,000
- Grantiau mawr rhwng £5,001 ac, yn eithriadol £80,000

Mae ein maes ariannu Gwyliau ar waith er 2012/13. Mae'n un o'n cynlluniau mwyaf llwyddiannus a phoblogaidd sy'n darparu arian i ystod eang o wyliau celfyddydol sefydledig a newydd. Serch hynny, mae'r pwysau cynyddol ar ein dyraniad o arian loteri yn y maes hwn yn parhau ac yn 2018/19 mae'n rhaid inni leihau lefel ein harian a fydd ar gael i gefnogi Gwyliau yng Nghymru.

Yn wreiddiol lansiasom ariannu Gwyliau gyda chyllideb o £1.2 miliwn y flwyddyn. Ar gyfartaledd, cawn ryw 40 o geisiadau oddi wrth wyliau mawrion bob blwyddyn. Yn ddiweddar, mewn unrhyw un o'r blynyddoedd hynny, mae'r galw am gefnogaeth yn fwy na £2 miliwn ac mae'n fwy na'r gyllideb yn gyson. Mewn blynyddoedd cynt, golygai hyblygrwydd rywle arall yn ein harian loteri y gallem gynyddu'r swm a oedd ar gael oherwydd gohirio prosiectau eraill a oedd yn yr arfaeth. Yn anffodus, ni allwn ddibynnu ar hyn bob blwyddyn, a gwyddom na fydd gennym y fath adnoddau yn ystod 2018/19. Golyga hyn fod yn rhaid lleihau'r cyllideb o'i lefel wreiddiol o £1.2 miliwn i £1m ar gyfer Gwyliau sy'n cael eu cynnal yn 2019/20.

Megis mewn meysydd eraill o'n hariannu, anogwn yn weithredol sefydliadau i leihau lefel eu dibyniaeth ar arian Cyngor Celfyddydau Cymru. Golyga hyn y disgwyliwn i weld sefydliadau yn gofyn am lai oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru yn gyfran o'u hincwm cyffredinol. Erys arian Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyfran o'ch trosiant cyffredinol yn ddangosydd pwysig o werth am arian y mae'n rhaid inni ei ystyried wrth gloriannu ceisiadau.

Gofynnwn ichi gofio'r holl wybodaeth hon wrth lunio eich cais inni a gofynnwn yn benodol ichi wneud yn siŵr (heblaw y bu newid mawr iawn yn eich amgylchiadau) eich bod yn:

- ymgeisio yn y band a roddwyd ichi yn eich cais am grant diwethaf

- gostwng eich dibyniaeth ar ein harian yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mewn geiriau eraill, rhaid ichi ofyn inni am lai o arian nag a gawsoch yn eich cais diwethaf yn ogystal â gofyn am lai o ran y canran o'ch incwm cyffredinol

I'n cynorthwyo i wneud hyn yn deg a chyson yn ein proses asesu'n gymharol, parhawn i brofi ceisiadau yn ôl y gofynion penodol a ddisgrifir isod a chyfeirir atynt weithiau'n 'fandiau'. **O Ebrill 2018 ymlaen, y 'bandiau' ar gyfer ceisiadau gwyliau yw: hyd at £5,000, hyd at £25,000, hyd at £40,000, hyd at £60,000, a hyd at uchafswm o £80,000.**

## Beth fydd ei hangen gennych chi

Rhaid i chi ddweud wrthym sut y daeth eich rhaglen i fod, a beth sy'n ei dal at ei gilydd fel gŵyl. Gallai hyn fod yn thema, yn fath o gelfyddyd neu'n rhywbeth mwy arloesol. Byddwn ni'n disgwyl i'r cynnwys celfyddydol gael ei integreiddio'n llwyr i'ch digwyddiad, yn hytrach na bod yn rhywbeth ychwanegol.

Rydyn ni'n cynorthwyo ac yn gwerthfawrogi gwyliau o wahanol feintiau. Gwyddom ei fod hi'n afrealistaidd disgwyl i ddigwyddiad cymunedol bychan ystyried yr un materion a gŵyl flaenllaw sefydledig o fri rhyngwladol. Felly mae gennym ofynion penodol yn dibynnu ar y swm rydych chi'n ei geisio ar gyfer eich gŵyl. Byddwn ni'n disgwyl i'ch cais ddangos sut mae'ch gŵyl yn mynd i'r afael â'r rhain.

### Yn achos ceisiadau am grantiau bach hyd at £5,000

Bydd eich gŵyl:

- Yn cynnwys y gymuned leol
- Yn dod â gwerth ychwanegol i'r gymuned leol

Gallem ystyried digwyddiad un tro o fewn gŵyl ehangach / sy'n bodoli eisoes.

### Yn achos ceisiadau am grantiau mawr hyd at £25,000

Bydd eich gŵyl yn cyflawni'r ddau beth uchod, a bydd:

- Yn weithredol ers o leiaf blwyddyn
- Yn ddigwyddiad o bwys yn ardal yr awdurdod lleol
- Yn benodol i safle neu i le (h.y. ni ellid ei ail-greu mewn lleoliad arall)
- Yn para o leiaf dau ddiwrnod
- Yn gweithredu'n ddwyieithog
- Ganddo gynllun busnes cyfredol

**Yn achos grantiau mawr hyd at £40,000** (derbyniwn geisiadau ym mis Mai yn unig)

Bydd eich gŵyl yn cyflawni'r holl bethau uchod, a bydd:

- Yn weithredol ers dros dair blynedd
- Y celfyddydau'n brif ffocws iddi
- Elfen ryngwladol iddi
- O bwys rhanbarthol
- Yn meithrin artistiaid Cymreig neu sy'n gweithio yng Nghymru (trwy gynnig platfform, hyfforddiant, dosbarthiadau meistr ac ati)
- Yn cynnwys rhyw lefel o waith newydd neu ddiweddar
- Yn cynnig presenoldeb lleol cadarn sy'n creu ymdeimlad o le, neu'n bywiogi eich tref neu'ch ardal
- Wedi denu cyllid partneriaeth cadarn
- Yn seiliedig ar fodel busnes cadarn
- Yn cael effaith ar y gymuned leol

**Yn achos ceisiadau am grantiau mawr hyd at £60,000** (derbyniwn geisiadau ym mis Mai yn unig)

Bydd eich gŵyl yn cyflawni'r holl bethau uchod, a bydd:

- Yn cael effaith glir a sylweddol ar ddatblygu'r celfyddydau
- Yn cynnwys gwaith newydd yr ydych wedi ei gomisiynu'n arbennig ar gyfer eich gŵyl
- O bwys cenedlaethol
- Gennych swyddog marchnata pwrpasol ar gyfer yr ŵyl
- Ganddi bresenoldeb hollol ddwyieithog ar lein
- Yr holl wybodaeth argraffedig ar gyfer yr ŵyl yn ddwyieithog
- Yn feithrinfa ar gyfer cydweithredu newydd

**Yn achos ceisiadau am grantiau mawr hyd at £80,000** (derbyniwn geisiadau ym mis Mai yn unig)

Bydd eich gŵyl yn cyflawni'r holl bethau uchod, a bydd:

- Yn unigryw
- Ganddi o leiaf bum mlynedd o hanes
- Yn cyfrannu at ddatblygiad y sector
- Ganddi broffil rhyngwladol gyda pherfformwyr a chynulleidfa ryngwladol
- Yn ddigwyddiad blaenllaw i Gymru
- Ganddi bresenoldeb gydol y flwyddyn wedi ei nodweddu gan ddatblygiad parhaus
- Wedi denu amrywiaeth eang o gymorth ariannol o ffynonellau eraill (sy'n dangos ei bod yn ddibynnol ar gyllid Cyngor Celfyddydau Cymru am 50% neu lai o'i chyllid)
- Ganddi raglen addysg ac allestyn
- Yn cael effaith ar dwristiaeth ddiwylliannol.

**Rhaid i bawb sy'n gwneud cais am grantiau mawr gyflwyno cynllun datblygu artistig tair blynedd o hyd yn rhan o'u cais**. Ni fydd modd i ni asesu eich cais heb y wybodaeth yma. Dylai'r cynllun datblygu gynnwys eich dull o fynd ati i:

- Bennu'r weledigaeth a chyflunio eich rhaglen waith dros y cyfnod o dair blynedd, gan gynnwys y cerrig milltir allweddol
- Cyflawni eich uchelgeisiau o ran cynaliadwyedd a thwf wrth ddangos hyfywedd ariannol ac amrywio'r ffrydiau incwm
- Gwerthuso'ch gweithgareddau bob blwyddyn a defnyddio'r wybodaeth sy'n codi o hyn i ddylanwadu ar weithgarwch dilynol
- Meithrin a chynnal eich cynulleidfaoedd, gwirfoddolwyr a / neu gyfranogwyr
- Dangos etifeddiaeth eich gŵyl a'i heffaith ar yr economi ac ar y sector yng Nghymru.

Mae rhagor o wybodaeth yn ein Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau yn y maes gwaith Gwyliau, a bydd y rhain yn eich helpu chi i lenwi'ch ffurflen gais. Mae templad ar gyfer cynllun datblygu artistig tair blynedd ar gael ar ein gwefan.

## Pwy gaiff wneud cais

Cewch wirio bod eich sefydliad yn gymwys i wneud cais trwy ddarllen ein dogfen Cychwyn Arni.

## Pryd cewch wneud cais

### Grantiau Bach

Dylech gyflwyno'ch cais mor fuan ag sy'n bosibl

Nid oes dyddiadau cau ar gyfer grantiau bach, ond bydd angen i chi ganiatáu o leiaf **chwe wythnos gwaith** rhwng dyddiad cyflwyno'r cais a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect. **Os ydych chi'n cyflwyno'ch cais cyntaf i ni, yna rhaid i chi wneud cais ar y lefel hon.**

**Bydd ein rhaglen Grantiau Bach yn cau dros-dro tra ein bod yn adolygu sut yr ydym yn dosbarthu arian Loteri. Y dyddiad olaf byddwn yn derbyn ceisiadau Grantiau Bach fydd Dydd Mercher, 10fed o Orffennaf 2019 am 5pm. Caiff benderfyniadau eu cyfathrebu erbyn Dydd Mercher 31ain o Orffennaf 2019.**

### Grantiau Mawr

Dyma'r dyddiadau cau nesaf ar gyfer ceisiadau am grantiau mawr:

- 5pm Dydd Mercher 23ain Ionawr 2019 (Uchafswm y cais yw £25,000)
- 5pm Dydd Mercher 8fed Mai 2019

Bydd angen i chi ganiatáu o leiaf **naw wythnos gwaith** rhwng y dyddiad cau a'r dyddiad pan rydych am ddechrau eich prosiect.

## Pa mor aml y cewch wneud cais

Rydyn ni am sicrhau bod ein cyllid ar gael mor eang â phosibl, felly mae yna gyfyngiad ar sawl gwaith y gallwch gael cyllid trwy Grantiau'r Celfyddydau i Sefydliadau. Gall Sefydliadau ddal un grant o'r cynllun hwn mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis.

**Rydyn ni'n defnyddio dyddiad dechrau eich prosiect i gyfrif y cyfnod o ddeuddeg mis.** Yr unig bryd y byddwn yn llacio'r rheol yma yw os ydych yn ceisio am arian ar gyfer gwaith datblygu, lle ystyriwn **un** grant ychwanegol y flwyddyn ar gyfer y pedwar maes canlynol:

- Datblygu Cynulleidfaoedd
- Datblygu Busnes a Sefydliadol
- Ymchwil a Datblygu
- Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol

Er enghraifft, gall eich sefydliad dderbyn grant o'r meysydd Cynhyrchu ac Ymchwil a Datblygu mewn un flwyddyn, ond ddim am ddau brosiect Ymchwil a Datblygu.

Nid yw'r ffaith y cewch gyflwyno ail gais mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis yn gwarantu llwyddiant y cais.

Rydyn ni'n defnyddio'r ymadrodd "grant byw" i olygu cais am brosiect a gafodd gyllid gennym ac sy'n dal i fod ar waith. Er enghraifft, os cawsoch gyllid ar gyfer prosiect a gychwynnodd ar 1 Medi 2017 a'ch bod am gyflwyno cais arall, yna rhaid iddo fod am weithgaredd a fydd yn cychwyn deuddeg mis yn ddiweddarach, ar 1 Medi 2018 neu'n ddiweddarach. Mae'n bwysig cofio y cewch wneud cais cyn diwedd y cyfnod o ddeuddeg mis, ond ni chewch gychwyn eich gweithgaredd nes bod blwyddyn wedi mynd heibio.

Cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth os ydyn ni wedi rhoi grant i chi o'r blaen a'ch bod chi'n ansicr a ydych chi'n gymwys i wneud cais eto nawr.

## Sut i wneud cais

Rhaid ichi drafod eich prosiect gyda ni cyn inni anfon ffurflen gais atoch.

Os oes gennych brosiect y credwch y gallai fod yn gymwys dan y maes ariannu hwn, e-bostiwch eich syniadau prosiect i: datblygu@celf.cymru

Cofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- eich enw
- teitl y prosiect
- disgrifiad o'ch prosiect
- faint o arian sydd arnoch ei angen?
- lleoliad y prosiect

Rhaid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio ein system ymgeisio ar-lein.

Os na allwch gyflwyno'ch cais ar-lein, er enghraifft, os ydych chi'n anabl neu os nad oes cyfrifiadur ar gael i chi, cysylltwch â'n Tîm Grantiau a Gwybodaeth. Byddwn ni'n gweithio gyda chi i ddod o hyd i ddull eraill o wneud cais. Gallwn eich cynorthwyo hefyd os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf.

## Oes angen rhagor o gyngor arnoch?

Mae gennym Daflenni Gwybodaeth a dogfennau canllaw i'ch helpu chi gyda gwahanol agweddau ar y broses o ymgeisio, neu i ddarparu cyngor ar faterion penodol. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan. Efallai y bydd y canlynol o ddefnydd wrth i chi baratoi'ch cais ar gyfer y maes gwaith Gwyliau:

- Nodiadau Cymorth ar gyfer ceisiadau am Wyliau
- Cyngor Celfyddydau Cymru Arweiniad Cydraddoldeb

Os oes gennych ragor o gwestiynau am y cais, ffoniwch ein Tîm Grantiau a Gwybodaeth ar 0845 8734 900 neu e-bostiwch: grantiau@celf.cymru